# CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

**Cadeirydd: Gari B Jones**

Nos Fawrth Rhagfyr 10fed 2024 am 7.30 y.h

## Cofnodion (118)

Ar gychwyn y cyfarfod cydymdeimlwyd gyda'r Cyng. Alun Owen yn ei brofedigaeth o golli ei fam yn ddiweddar.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Alun Owen, Cyng. Sirol Gwennol Ellis.
2. **Presennol:** Cyng. Gari B Jones, Gerallt Jones, Gethin Pyrs, Edmund Rees, Gwynfor Roberts ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb yn datgan diddordeb
4. **Cofnodion mis Medi:** Derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir gan GJ yn cynnig gydag ER yn eilio
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
   5.1.1. Diffib ym mlwch ffôn Glanrafon – gan fod y gost o osod diffib yn y blwch ffôn yn uchel penderfynwyd yn unfrydol peidio â mynd ymlaen gyda'r cais.
   5.1.2. Cais Pwyllgor Lles Pentrefoelas – cytunwyd ar fenthyciad di-log o £500.00 a bod angen mwy o wybodaeth ar be 'rydym yn ymrwymo i.
   5.1.3. Cyfarfod Cyngor Conwy (Maes Parcio) – ar ôl cael adroddiad o'r cyfarfod cytunwyd ar y gwerthiant fel un plot os yn bosib. Cytunodd y Cyng. Gari Jones gysylltu gyda'r rhai oedd wedi dangos diddordeb mewn prynu plot ac iddynt ddod at ei gilydd i drafod ymhellach.
6. **Gohebiaeth:**
   6.1.1. CBSC – Astudiaeth Ddigonol – wedi anfon copi o'r Anfoneb a'r Gyfriflen berthnasol er mwyn cwblhau'r gwaith papur.
   6.1.2. CBSC – Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned – rhai cynigion a gwybodaeth berthnasol eu hystyried:-
   Chwarae tu Allan – Sesiynau Chwarae, cost am 10 sesiwn yn ystod y flwyddyn yw £2,325. 2 sesiwn dros y Pasg, 1 sesiwn yn ystod gwyliau hanner tymor y Sulgwyn, 5 sesiwn yn yr haf, 1 sesiwn yn ystod gwyliau hanner tymor mis Hydref, 1 sesiwn yn ystod gwyliau hanner tymor mis Chwefror. Mae cynnig Haf 2025 yn £1,400 am 5 sesiwn chwarae yn ystod gwyliau'r haf. Cytunwyd na fyddwn yn cefnogi'r cais oni bai bod grant ar gael.
   Llyfrgelloedd Cymunedol – cyfraniad Llyfrgell £500.00. Cytunwyd yn unfrydol na fyddwn yn cefnogi'r cais eleni gan fod angen cefnogi ceisiadau lleol.
   6.1.3. Llywodraeth Cymru – y swm sy'n briodol ar gyfer Adran 137 yw £11.10 ar gyfer pob etholwr.
   6.1.4. CBSC – wedi derbyn trydydd taliad o'r Presept £1776.00
7. **Ffurflen Monitro:**
   Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
8. **Mantolen Banc:**
   Edrychwyd dros y fantolen, hyd yma mae popeth mewn trefn
9. **Cais Cynllunio:**
   9.1. Cyfeirnod: 0/52105
   Ymgeisydd: Mr Ions
   Cynllun: Cais ôl-weithredol i godi strwythur pren y decin allanol presennol
   Safle: Y Giler Arms, Llwyn Onn, Rhydlydan, Pentrefoelas
   Cefnogwyd y Cais.
   9.2. Cyfeirnod: 0/52156
   Ymgeisydd: Mr a Mrs Dafydd Evans
   Cynllun: Storfa Gwair a Pheiriannau Fferm Arfaethedig a Gwaith Cysylltiedig
   Safle: Cernioge Mawr., Pentrefoelas
   Trafodwyd y Cais yn fanwl ni chafwyd sylwadau na gwrthwynebiad. Cefnogwyd y Cais

10. **Talu Anfonebau:**
   10.1. Canolfan Cymdeithasol Pentrefoelas – tal llogi blynyddol – cynigiodd GJ gydag GR yn eilio talu'r anfoneb o **£60.00** gyda siec rhif **100417** (S133)
   10.2. Costau'r clerc am 4 mis o Awst i Dachwedd cynigiodd GP gydag ER yn eilio talu'r **£111.45** gyda siec rhif **100418** (S150)
   10.3 Cradur.com – cynigiodd ER gyda GJ eilio talu anfoneb am y wefan o **£52.00** gyda siec rhif **100419 (S55)**
11. **Trafod cyflog y clerc:**
   *Gadawodd y Clerc y cyfarfod tra bo'r mater yn cael ei drafod. Cyfeiriodd Edmund Rees yr aelodau at Gofnodion cyfarfod 11/04/22, pryd cytunwyd ar 17awr y mis i wneud gwaith y Clerc ar dâl o £12.00 yr awr. Roedd hun yn cyd-fynd efo SCP13a gytunwyd efo'r NJC ar gyfer 2021/22. Hysbyswyd yr aelodau bod y 'Local Government Services Pay Agreement' ar gyfer eleni wedi codi'r tâl i glercod ar SCP 13 i £14.60 yr awr am 17 awr sef £248.20 y mis. Hefyd mae'r codiad i'w ôl-ddyddio i 01/04/24. Petasai'r codiad cyflog yn cael ei weithredu yn fis Ionawr, i roi amser i drefnu, buasai angen ôl-ddyddio £2.60 x 17 awr x 9 mis o gyflog ar y raddfa newydd sef £397.80, ar ben tal mis Rhagfyr. Cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Gerallt Jones yn eilio bod yr aelodau'n codi'r cyflog i lefel 2024, fel eglurodd uchod, efo pawb yn cydweld. Gwahoddwyd y Clerc yn ôl i'r cyfarfod a phenderfynodd derbyn y cynnig'.*
12. **Gosod Cyllideb/Presept 2025-26:**
   Edrychwyd ac ail osodwyd y Gyllideb am y flwyddyn nesaf a chytunwyd ar godi'r Presept £600 i **£5930.00.**
13. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwennol Ellis** – Nid oedd yn bresennol - Nodyn a dderbyniodd y Cyng. Sirol yn egluro sefyllfa'r toiledau cyhoeddus: '*I am writing to notify you as interested parties that the Public Conveniences at Pentrefoelas have now been leased out under a **tenancy at will** to the owners of the adjacent Bocs Bwyd cafê as of 28/11/24. CCBC are no longer liable for management, operation, maintenance, utilities, and public liability Insurance. The agreement can be ended any time given 28 days notice. The tenancy at will is planned to be a short term agreement whilst a Community Group is formed to whom the PC's are proposed to be transferred as the long term solution.*
14. **Unrhyw fater arall:**
   14.1.1. Mae fflag Cymru ar gael ac am osod i fynnu pan fu'r tywydd yn gwella.
   14.1.2. Angen Cofrestr Asedau.
15. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** – nos Fawrth Ionawr 7fed 2025 am 7.30 y.h

**Arwyddwyd**______________________________ **Dyddiad** 07.01.25

Cadeirydd